

Rhoi adborth i'ch meddyg

Os gofynnwyd i chi am adborth am y gofal a gawsoch gan feddyg, ceisiwch gymryd rhan - mae eich barn yn gwneud gwahaniaeth. Mae'ch meddyg eisiau gwybod beth yw eich barn chi, gan fod eich adborth yn eu helpu i wella'r gofal maen nhw'n ei roi.

Sut mae'n gweithio?



Cam 1 Rhoi'ch adborth

Rydych chi'n cael gofal uniongyrchol gan eich meddyg. Felly, rydych chi mewn sefyllfa dda i sôn wrth eich meddyg am yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, a'r hyn y gallent ei wneud yn well.

Nid oes yn rhaid i chi roi adborth, ond os byddwch yn gwneud hynny, byddwch yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol.

Ni fydd y meddyg yn gwybod bod yr adborth wedi cael ei roi gennych chi. Byddant yn cael crynodeb o'r adborth a gafwyd gan yr holl gleifion.



Cam 2 Defnyddio'ch adborth

Bydd eich meddyg yn dysgu o'ch adborth. Bob blwyddyn, bydd eich meddyg yn adolygu eu gwaith gydag unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant penodol (a elwir yn arfarnwr).

Byddant yn sôn am yr adborth y maent wedi'i gael gan gleifion, a'r hyn y mae'n ei ddweud wrthynt am y ffordd y maent yn gweithio.



Cam 3 Gwell gofal i gleifion

Bydd eich meddyg yn defnyddio'r adborth i nodi pethau y maent yn eu gwneud yn dda – fel y gallant barhau i'w gwneud – a sut y gallant wella.

Byddant yn ystyried sut y gallant wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio er mwyn rhoi gofal gwell i'w cleifion.

Os bydd angen i chi roi adborth mewn ffordd wahanol, siaradwch â'r unigolyn a ofynnodd i chi am adborth. Gall gofalwr, ffrind neu berthynas eich helpu i roi eich adborth hefyd.

Cyngor ar roi adborth

- **Byddwch yn onest:** Dim ond os yw'n onest ac yn helpu eich meddyg i ddeall yr hyn y gallant ei wneud yn well y bydd eich adborth yn ddefnyddiol. Dywedwch wrth eich meddyg yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, fel eu bod yn parhau i'w wneud. Dywedwch wrth eich meddyg yr hyn yr hoffech iddynt ei wneud yn wahanol, fel y gallant wella.
- **Esboniwch unrhyw sgoriau:** Efallai y gofynnir i chi roi sgôr i'ch meddyg am wahanol rannau o'r gofal y maent yn ei roi i chi. Mae'n bwysig esbonio pam eich bod wedi rhoi sgôr benodol yn y sylwadau (pan fo modd) er mwyn helpu eich meddyg i ddeall eich adborth.
- **Rhowch enghreifftiau:** Soniwch am yr hyn a wnaeth eich meddyg yn hytrach na gwneud sylwadau cyffredinol. Er enghraifft, yn lle dweud 'Nid oeddwn yn deall', dywedwch 'Nid oeddwn yn deall gan eich bod wedi defnyddio nifer fawr o eiriau meddygol nad oeddent yn golygu unrhyw beth i mi'.

Rwy'n dymuno gwneud cwyn am feddyg

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am feddyg, dylech gysylltu â'r ysbyty GIG, y practis meddyg teulu, yr ysbyty preifat neu'r clinig lle y cawsoch ofal. Bydd ganddynt broses gwyno i chi ei dilyn.

Mae gwneud cwyn yn wahanol i roi adborth. Mae adborth yn ymwneud â rhoi gwybodaeth i feddyg y gallant ddysgu ohoni. Mae cwyn yn ymwneud â mynegi rhywbeth annerbyniol neu anfoddfaol, y mae angen cael ymateb ffurfiol iddo.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch ble i gwyno, gallwch weld mwy trwy fynd i <https://www.gmc-uk.org/cy/Concerns/Supporting-you-with-your-concern/Local-help-services>.

I ofyn am y daflen hon mewn iaith neu ffurf arall,
ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom,
publications@gmc-uk.org.